**CYNGOR BRO MACHNO**

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2017 yn Festri Salem am 7.30

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Eifion Davies, Dewi Jones, Lyn Mcfadden, Sian Anwyl Jones, Geraint Thomas ac Eryl Owain ynghyd â'r clerc, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Claire Roberts.

**Cyflwyniadau:**

**Conwy Cynhaliol** – croesawyd Ela Williams gan y Cadeirydd. Cafwyd amlinelliad o waith Cynllun Gwledig Conwy. Mae'n gynllun strategol dros saith mlynedd ar gyfer ardaloedd gwledig y sir gyda'r amcanion o ddenu pobl i'r sir drwy'r flwyddyn a chadw pobl ifainc yn eu hardaloedd oddi mewn i fframwaith cynaliadwyedd. Clywyd am rai enghreifftiau o gynlluniau sydd eisoes ar droed megis defnyddio hen flychau ffôn a darparu pwyntiau pwêru i geir trydan. Teimlwyd ei bod yn anodd gweld sut y gallai Bro Machno fanteisio ar y cynllun hwn ond diolchwyd i Ela Williams am ei chyflwyniad.

**Cwmni Hafren Gwy** – croesawyd Mark Graham gan y Cadeirydd. Mae Hafren Gwy yn gwmni sy'n cynghori ar ddulliau o adfywio cymunedau gwledig ac archwilio'r posibiliadau o sicrhau grantiau o amrywiol ffynonellau megis y Loteri Fawr. Wedi trafodaeth, dywedodd Mark y y gallai Bro Machno fod yn ardal gymwys ac y byddai'n adrodd yn ôl i Fwrdd Rheoli'r cwmni.

Penderfynwyd gwahodd Mark Graham i gyfarfod ym Mhenmachno ar 7 Rhagfyr ac i gyfarfod yng Nghwm Penmachno ar ddyddiad cyfleus i drafod ymhellach efo cynrychiolwyr mudiadau lleol.

**Materion personol:** Mynegwyd cydymdeimlad â Colin Jones oedd wedi colli ei fam.

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 14 Medi fel rhai cywir.

**Materion yn codi:**

**Toiledau:** Nid yw Cyngor Sir Conwy wedi trosglwyddo'r toiledau i berchnogaeth y cyngor cymuned felly'r cyngor sir sydd yn parhau'n gyfrifol am lanhau'r toiledau a darparu cyflenwadau. Nid yw'n bosib felly symud ymlaen

i osod rhan wag yr adeilad. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.

**Materion ffyrdd:** Y clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r materion sydd angen sylw ac mae'n gobeithio y bydd cyfarfod i ymweld â'r safleoedd yn cael i gynnal yn fuan.

**Loriau trymion ger cyffordd y Felin Wlân:** Wedi cysylltu â'r Aelod Seneddol, adroddodd y clerc fod cyfarfod wedi ei drefnu ar 10fed i Ionawr gyda gyda Guto Bebb a chynrychiolwyr o'r Cyngor Sir a Chyfoeth Naturiol Cymru.

**Cerbydau trymion:** Adroddwyd bod sawl enghraifft dros yr wythnosau diwethaf o gerbydau trymion yn ceisio defnyddio'r ffordd gul dros Hafod-y-rhedwydd yn achosi problemau. Awgrymwyd nad yw'r arwydd rhybuddio ger Caiffi *Conwy Falls* na ddylid dibynnu ar *Satnav* yn ddigon amlwg a phasiwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir.

**Derbyniad ffôn symudol:** Nid oes ateb wedi ei dderbyn gan gwmni *Vodafone* er bod y clerc wedi cysylltu droeon. Penderfynwyd codi'r mater ymhellach efo Guto Bebb AS.

**Materion eraill:**

**Arwydd Plant yn chwarae ym Mron y Waen:** Y clerc wedi cysylltu â Chartrefi Cymru ond heb dderbyn ateb.

**Llythyr gan etholwr:** Darllenwyd llythyr gan Mr Martindale ynglŷn â darparu copi Saesneg o'r cofnodion. Penderfynwyd treialu defnyddio system gyfieithu electronig, gan osod y cyfieithiad ar wefan y Cyngor.

**Coed Nadolig:** Penderfynwyd cael dwy goeden Nadolig, un i Penmachno ac un i Cwm, yn ôl y drefn arferol.